

No.

PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.M. Hanks (Cadeirydd); Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, R.M. Birch, W. Gilligan, S.J. Haines, N.P. Hodges, H.M. Payne, S.D. Perks a R.R. Thomas.

Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Y Cynghorwyr S. Hodges (Cyngor Tref y Barri); A. Trousdell (Cyngor Tref Y Bont-faen gyda Llanfleiddan); M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth); B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn); M. Phillips (Eilydd) (Cyngor Cymuned Dinas Powys); J. Radcliffe (Cyngor Cymuned Ewenni); H. Osbourne (Cyngor Cymuned Llancarfan); D. Hackett (Eilydd) (Cyngor Cymuned Llandŵ); S. Bonnar (Cyngor Cymuned Llanfair); J. Sykes (Eilydd) (Cyngor Cymuned Llangan); M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llanmaes); P. Summers (Cyngor Cymuned Penllyn); S.M. Toker (Eilydd) (Cyngor Cymuned Sain Tathan); S. Roberts (Cyngor Cymuned Saint-y-brid); I. Perry (Cyngor Cymuned St. Nicholas a Thresimwn); N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog), C. Hawkins (Cyngor Cymuned Y Wig)

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr G. Bruce, W.A. Hennessy, Dr. I.J. Johnson a E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

407 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

408 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain oddi wrth y Cynghorwyr S. Campbell a C.A. Cave (Cyngor Bro Morgannwg) a Chynghorwyr Cymuned G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr); K. Hatton (Cyngor Cymuned Dinas Powys); J. Shaw (Cyngor Cymuned Llandw); P. Wilson (Cyngor Cymuned Llangan), S. Harries (Cyngor Cymuned Sain Tathan) ac A. Thomas (Cyngor Cymuned Llanddunwyd).

409 COFNODION –

CYTUNWYD -

(1) Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir ar yr amod ei fod yn cael ei nodi bod y cyfeiriad at golli 'cyflog' o fewn pwynt bwled tri Argymhelliad (2) (Cofnod Rhif 874) hefyd yn cyfeirio at golli 'swyddi' Clerc fel y codwyd gan y Cyngorydd Cave.

(2) Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

410 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

411 GWASANAETH HEDDLU DE CYMRU - DIWEDDARIAD LLAFAR –

Croesawodd y Cadeirydd yr Arolygydd newydd ar gyfer y Barri a'r Fro, Gareth Childs, i'r Pwyllgor a mynegi diolch ar ran y Pwyllgor i Gynrychiolydd blaenorol yr Heddlu, yr Arolygydd Mark Henderson, am ei gyfraniadau i'r Pwyllgor.

Wedyn rhoddodd yr Arolygydd Childs wybod i'r Pwyllgor am y straeon newyddion da a'r materion plismona a ganlyn ar gyfer ardal Bro Morgannwg:

- Ar 11 Medi 2023, llwyddodd Cwnstabl yr Heddlu Dan Tunncliffe i gael sylw meddygol i fenyw a oedd mewn trallod ar draeth Llanilltud Fawr. O ganlyniad i hyn, roedd teulu'r ferch ifanc wedi mynegi diolch i'r cwnstabl, ac roedd gwaith diogelu ardderchog wedi'i gyflawni. Roedd y digwyddiad yn gysylltiedig â phrosiect sydd ar y gweill i atal hunanladdiad, a gynhelir mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg. Roedd a wnelo'r prosiect â mesurau ataliol a gwaith partneriaeth drwy ddefnyddio technoleg 'What three words', a allai ganfod lleoliad o fewn unrhyw dri metr sgwâr. Byddai manteision y dechnoleg hon yn caniatáu i wasanaeth yr heddlu ganfod lleoliad unigolion mewn trallod emosiynol neu feddygol yn haws ac yn gyflymach, ar hyd 25 pwynt ar hyd morlin Bro Morgannwg. Rhagwelwyd y byddai'r prosiect atal hunanladdiad yn cael cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasol dros yr wythosau nesaf.
- Mewn perthynas â phrosiectau cymunedol, roedd PCSO Angela Stone wedi bod yn cyfarfod ag aelodau o'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i gynnal mentrau gwaith lleol a gwaith garddio yn ardal Southerndown. Roedd y prosiect hwn yn cefnogi prosiectau cymunedol eraill sydd hefyd yn cael eu cynnal yn ardal Llanilltud Fawr i ddathlu hanner can mlynedd o brosiectau cymunedol yr heddlu. Roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol wedi bod yn cymryd rhan yn gyson yn y prosiectau cymunedol, ac roedd pob un yn mynd rhagddo'n dda iawn.

No.

- Ddechrau mis Medi, roedd yr Arolygydd Childs wedi cyfarfod â Prif Weinidog Cymru fu'n ymweld ag ardal Saint-y-brid i weld y cyfyngiadau cyflymder 20mya sydd wedi'u gweithredu drwy beilot yn y pentre f. Cafwyd canmoliaeth i'r fenter gan breswylwyr, athrawon ysgol a rhieni, ac aeth yr ymweliad â'r Prif Weinidog yn dda iawn mewn partneriaeth â chydweithwyr eraill o'r heddlu a phennaeth yr ysgol leol. Cododd yr ymweliad broffil ardal Saint-y-brid a cherddodd unigolion a gymerodd ran yn yr ymweliad o'r ysgol gynradd yn y pentref at ffermdy lleol lle'r oedd nifer o fentrau cymunedol yn cael eu cynnal gan yr heddlu. Roedd y cyfyngiad cyflymder 20mya wedi bod ar waith yn y pentref am ddwy flynedd cyn yr ymweliad, ac roedd yn rhywbeth a groesawyd.
- Roedd Leanne Davies, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, wedi cynnal sesiwn i wirfoddolwyr godi sbwriel ar Ynys y Barri, gyda nifer o aelodau o'r gymuned ynghyd â swyddogion cymorth cymunedol eraill yr heddlu.
- Roedd Ymgyrch Elstree, sef dull o weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ogystal â Chyngor Bro Morgannwg, wedi cael ei chynnal o fis Mehefin hyd ddiwedd is Medi, felly roedd yr ymgyrch wedi dod i ben am y flwyddyn galendr hon. Oherwydd y tywydd gwael a gafwyd ym mis Gorffennaf ac Awst, roedd llai o bobl wedi teithio i Fro Morgannwg nag a deithiodd yno ym misoedd blaenorol yr haf, ac nid oedd rhyw lawer o broblemau wedi codi yn rhan o'r ymgyrch. Cafwyd rhai achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ym maes parcio'r Harbwr yn y Barri, felly roedd mesurau diogelwch bellach ar waith, a'r heddlu'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg.

Mewn ymateb i ymholiad yr Arolygydd Childs ynghylch y data ystadegol yr oedd gofyn iddo'u cyflwyno, dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu fod Arolygwyr blaenorol wedi darparu gwybodaeth ystadegol i'r pwyllgor ynghylch y gwahanol gategoriâu o ffigurau trosedd ar gyfer yr ardal yn ei chyfanrwydd. Mewn ymateb i hyn, diolchodd yr Arolygydd Childs i'r Pwyllgor am ei amser a dywedodd y byddai ffigurau ystadegol pellach yn cael eu cyflwyno ar dueddiadau troseddu penodol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Yn dilyn hyn, llongyfarchodd Is-gadeirydd y Pwyllgor yr Arolygydd Childs am ei benodiad diweddar, a gofynnodd am gadarnhad ynghylch yr ardaloedd a oedd wedi'u cynnwys o dan y rôl. Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Arolygydd Childs fod ardaloedd Penarth, Dinas Powys, Sili a Llandochoau wedi'u cynnwys o dan yr Arolygydd Abbey Biddle, a weithiai allan o Orsaf Heddlu Bae Caerdydd, felly roedd ei rôl ef ei hun yn cynnwys canol tref y Barri ac mor bell tua gorllewin Bro Morgannwg ag Aberogwr.

Yna gofynnodd yr Is-gadeirydd ail gwestiwn ynghylch troseddau bwrgleriaeth mewn eiddo masnachol, yn gysylltiedig â safleoedd manwerthu yn ardaloedd Penarth a'r Barri. Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Arolygydd Childs fod cyfres o dair byrgleriaeth ym mis Medi yn y Barri wedi cael eu riportio. Roedd y rhain yn gysylltiedig â Fferyllfa Lloyds yn Tesco's y Barri, optegwyr ar Heol Holitwn ac ymgais i ladrata o Argos ar Lannau'r Barri. Mewn perthynas â'r tri adroddiad roedd unigolyn wedi'i gymryd i mewn i'r ddalfa, ac roedd gwaith ar y gweill i gasglu tystiolaeth er mwyn gallu dwyn cyhuddiad. Gwnaed cysylltiad rhwng y tri

No.

digwyddiad ar wahân ar sail y cerbyd a ddefnyddiwyd, ac roedd yr unigolyn yn dal i fod ar fechniaeth a'r achosion yn parhau. Roedd nifer fwy o fyrghleriaethau masnachol hefyd wedi digwydd yn ardal Penarth, ac yn enwedig mewn perthynas â Heol Penarth a sawl eiddo DIY. Roedd unigolyn wedi'i arestio'n gysylltiedig â'r rhain, ac roedd yr Arolygydd Childs yn cydweithio'n agos ag Arolygydd yr ardal, Abbey Biddle, ar y troseddau. Roedd yr heddlu'n obeithiol, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, eu bod wedi dal yr unigolyn cywir, a'r gobaith oedd y byddai'n dod yn ôl gerbron y llys ar ddechrau mis Tachwedd i wynebu cyhuddiad.

Llongyfarchodd Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Saint-y-Brid yr Arolygydd ar ei benodiad diweddar, a chanmol y penderfyniad i ostwng terfynau cyflymder yn raddol o 50mya i 30mya ac wedyn i 20mya ar ochr y Wig i Bentref Saint-y-Brid, gan ddweud bod hynny wedi gwneud gwahaniaeth mawr i lif y traffig drwy'r pentref. Fel ail bwynt, cyfeiriodd y cynrychiolydd at ddamwain ddifrifol iawn a ddigwyddodd yn ddiweddar ym mhentref Aberogwr, a dywedodd nad oedd hi'n ymddangos fel pe bai'r terfyn o 30mya y gweithio gystal yn y lleoliad, gan fod ceir yn rasio'n weddol reolaidd ymhlith unigolion a oedd yn ceisio mynd i mewn i faes parcio Aberogwr. Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Arolygydd Childs fod y gwasanaeth yn ymchwilio i'r mater a godwyd gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned, a chytunodd ei bod hi'n gyfnod anodd o drosglwyddo wrth i derfynau cyflymder ostwng o lefelau cenedlaethol i mewn i bentrefi llai â therfyn cyflymder is. Mynegodd yr Arolygydd Childs ei fod o blaid gweithredu'r terfyn cyflymder 20mya, yn enwedig mewn perthynas â phentrefi gweledig a oedd o gymorth mawr i arafu'r traffig. Roedd yr adborth a gafwyd hyd yma mewn perthynas â gweithredu'r terfyn 20mya yn gadarnhaol iawn, ac ar ôl siarad â nifer o benaethiaid mewn ysgolion cynradd lleol, roedd traffig yn bendant yn arafach o amgylch lleoliadau'r ysgol, ac roedd hynny'n well i'r gymuned.

Yn ogystal â hynny, dywedodd Prif Weithredwr y Cyngor y byddai'r Cyngor, fel awdurdod, yn adolygu'r modd yr oedd y cynllun 20mya yn gweithio ledled y Fro yn sgil gweithredu'r cynllun yn eang dros gyfnod byr pan ddaeth deddfwriaeth Llywodraeth Cymru i rym. Roedd hi'n deg dweud, gydag unrhyw gynllun i weithredu ar raddfa o'r fath, y byddai Cyngor Bro Morgannwg am addasu ardaloedd cyn gynted ag yr oedd y cynllun hwnnw wedi'i sefydlu'n iawn. Felly, cyn gynted ag y byddai modd gweld sut roedd newidiadau'r cynllun yn gweithio'n ymarferol, yn enwedig wrth ddynesu at bentrefi, fel yr oedd Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Saint-y-Brid wedi esbonio, byddai Cyngor Bro Morgannwg yn edrych yn fanwl ar unrhyw newidiadau pellach y byddai eu hangen ac wedyn yn gweithredu'r newidiadau hynny.

I gloi, canmolodd y Cadeirydd bob PCSO sy'n gweithio yn ardal Bro Morgannwg, sy'n gwneud gwaith ardderchog.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, felly penderfynodd y Pwyllgor

CYTUNWYD - Diolch i'r Arolygydd Childs am gymryd yr amser i roi diweddariad ar lafar.

412 GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU - DIWEDDARIAD LLAFAR –

Mr Treherne, Rheolwr Grŵp, wybod i'r Pwyllgor am y materion canlynol mewn perthynas ag ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg:

- Cyfanswm y digwyddiadau lle bu'r Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn bresennol yn y flwyddyn ariannol gyfredol oedd 10,256. Roedd 3,527 o'r rhain yn ymwneud â thanau, 2,118 yn alwadau gwasanaeth arbennig a 4,611 yn alwadau diangen.
- Roedd y gwasanaeth wedi ymateb i 194 o danau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac roedd tanau mewn anheddau wedi cyrraedd uchafbwynt yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst gyda phedwar o danau cerbyd, 8 o danau glaswellt a 6 tân mewn cartrefi yn ystod mis Gorffennaf.
- Roedd yr ystadegau ar gyfer tanau cerbydau wedi gostwng wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.
- 44 oedd cyfanswm yr anafiadau a gafodd aelodau o'r gymuned o ganlyniad i ddigwyddiadau y bu'r gwasanaeth yn bresennol ynnddynt drwy'r flwyddyn ariannol hyd yma. Cafwyd 15 o anafiadau o ganlyniad i danau, 16 o ganlyniad i wrthdrawiadau traffig ar y ffordd, ac 13 yn gysylltiedig â galwadau gwasanaeth arbennig eraill.
- O ran nifer y marwolaethau, trist oedd adrodd bod dau o bobl wedi colli eu bywydau mewn un tân mewn cerbyd. Bu dau wrthdrawiad traffig ar y ffordd dros ddau ddigwyddiad ar wahân, y naill yn dân mewn annedd a'r llall yn dân mewn cerbyd ar y ffordd.
- Adeilad adfeiliedig y tu ôl i Fodurdy HINDS Bro Morgannwg - Ymwelodd yr adran Troseddau Tân â'r lleoliad ac amlygu rhai pwyntiau mynediad a pheryglon posibl ochr yn ochr ag adroddiad y criwiau. Fel protocol cyntaf, cafodd yr adeilad ei 'ail-ddiogelu' drwy osod byrddau dros y prif ddrws mynediad. Ni weithiodd hyn yn anffodus, ac roedd tân difrifol o fewn yr adeilad a oedd yn cynnwys 3 o bobl ifanc yn eu harddegau a wnaeth fynd yn sownd a gorfod cael eu hachub gan griwiau. Yn ffodus, ni chafwyd unrhyw anafiadau difrifol. Aeth y Cyngor wedyn ati i greu cynllun i rwystro mynediad i'r adeilad yn llwyr drwy osod gât ffens fetel i lawr yr esgynfa i Orsaf Dociau'r Barri a fyddai'n sownd wrth y ffensys sy'n bodoli eisoes o amgylch yr adeilad. Roedd hyn wedi cyfyngu ar y lle i unrhyw un ddringo drosodd, ac roedd y ffens yn 2.4m o uchder. Roedd mantais arall i'r trefniant hwn, sef ei fod yn agos at lwybr prysur ac felly'n haws ei weld. Roedd ffensys newydd hefyd wedi'u gosod ar draws y ffensys presennol, ac roedd y goeden a oedd yn cael ei defnyddio i ddringo drosodd yng nghornel bellaf y safle wedi'i thorri i lawr. Ers i'r gwaith gael ei wneud ni chafwyd yr un galwad ynghylch tân i'r ardal, ac roedd ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd wedi gostwng yn sylweddol. Heb weithio mewn partneriaeth, ni fyddai wedi bod yn bosibl sicrhau'r canlyniad hwn, sef atal digwyddiad difrifol rhag digwydd a lleihau'r perygl yn yr ardal.
- Wythnos Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 3ydd-7fed Gorffennaf - Roedd patrolau ar y cyd wedi cael eu cynnal mewn ardaloedd problemus, gyda PCSOs lleol a'r Gwasanaethau Tai, gan ymweld ag ardaloedd fel Ysgol St Cyres, Glannau'r Barri ac Aberogwr.

No.

- Digwyddiad Glannau Penarth - Mewn partneriaeth â Diogelwch Ffyrdd a'r Heddlu - bu swyddogion yn rhoi cyngor ar ddiogelwch yn y dŵr a hefyd yn hysbysu'r cyhoedd ynghylch manteision Adfywio Cardiopwlmonaidd (CPR).
- Patrolau'r Heddlu - Yn ardal Chickenwood a'r Knap, gan fod achosion parhaus o gychwyn tân yn fwriadol yn yr ardal.

Yn dilyn cyflwyniad y Rheolwr Grŵp, nododd yr Is-Gadeirydd mai gwaith ataliol yn hytrach na gwaith ymatebol oedd llawer o waith Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a'i fod yn hynod bwysig er mwyn cynyddu dealltwriaeth sylfaenol. Gallai peidio cael y ddealltwriaeth honno arwain at anaf ddifrifol a marwolaeth. Roedd hi'n hanfodol felly fod gan bobl ddealltwriaeth sylfaenol i achub bywydau ac osgoi anafiadau difrifol, oherwydd yn aml byddai unigolion yn mynd i banig ac yn troi sefyllfa beryglus yn llawer gwaeth. Fel ail bwynt, gofynnodd y Cynghorydd Wilson am gael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau a fyddai'n cael eu cynnal yn y dyfodol yn aral Penarth, er mwyn iddo allu eu cefnogi. Byddai'r holl Gynghorwyr yn croesawu'r un cyfle, ac roedd croeso hefyd i swyddogion yr heddlu ymweld â chyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned.

I gloi, dywedodd y Cadeirydd fod y gwasanaeth wedi gweithio drwy haf prysur iawn, ac roedd hi'n braf gweld enghreifftiau cryf o gydweithio rhwng y gwasanaeth tân, yr heddlu ac RNLI er mwyn cadw preswylwyr Bro Morgannwg yn ddiogel.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, felly penderfynodd y Pwyllgor

CYTUNWYD - Diolch i'r Rheolwr Grŵp Treherne am gymryd yr amser i roi diweddariad ar lafar.

413 ADOLYGIAD CYMUNEDOL BRO MORGANNWG (PW) –

Gyda chefnogaeth Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol y Cyngor, cyflwynodd Prif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg adroddiad y Cabinet er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol ynghylch Adolygiad Cymunedol Bro Morgannwg, a chyfeirio at yr ymateb a awgrymwyd gan Gabinet Cyngor Bro Morgannwg i Gynigion Drafft y Comisiwn Ffiniau ("y Comisiwn").

Dechreuodd y Prif Weithredwr drwy ddweud bod Cabinet Cyngor Bro Morgannwg hefyd wedi ystyried yr adroddiad yn gynharach ar yr un dydd, a bod pob Cyngor Tref a Chymuned, yn ogystal ag unigolion, wedi gallu mynegi sylwadau'n uniongyrchol wrth y Comisiwn yn rhan o'r adolygiad parhaus.

Cyflwynwyd yr adroddiad mewn tair rhan, fel y nodwyd yn y papurau a rannwyd ymlaen llaw cyn y cyfarfod, fel a ganlyn:

1. Hanes yr Adolygiad hyd yma, **paragraffau 1.1 – 1.13.**
2. Y Cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn, **paragraff 1.14** a oedd yn crynhoi'r canlynol:

Mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned:

No.

- Gostwng cyfanswm yr ardaloedd cymuned ym Mro Morgannwg o 27 i 20 (gostyngiad o 7 ardal gymuned).
- Gostwng cyfanswm y Cynghorwyr Tref a Chymuned o 269 i 209 (Gostyngiad o 60 Cynghorydd Cymuned).
- Tair cymuned heb eu newid (Llan-gan, Tregolwyn a Sain Tathan).
- Creu 7 ward gymunedol newydd (Y Glannau (Y Barri), Cosmeston (Penarth), Brooklands (Gwenfô), Pen-marc (Llancarfan), Gogledd-orllewin y Bont-faen (Y Bont-faen), Canol y Bont-faen (Y Bont-faen) a Llanfleiddan (Y Bont-faen), ac
- Uchafswm Maint Cyngor o 23 cynghorydd (Y Barri) ac isafswm o 7 cynghorydd (Tregolwyn, Llancarfan, Llandŵ a Llan-maes, Llanbedr-y-fro a Sain Siorys, Sili a Larnog, a Gwenfô).

Mewn perthynas â'r effeithiau canlyniadol ar Gyngor Sir Bro Morgannwg:

- Cynnydd cyffredinol yn nifer y Cynghorwyr Sir o 54 i 58 a chreu 2 ward etholiadol ychwanegol (Cosmeston a'r Glannau). Byddai'r Glannau yn y Barri yn ffurfio ward etholiadol newydd wedi'i chynrychioli gan 2 gynghorydd sir. Byddai cynghorydd ychwanegol yn cael ei ddyrannu i ward etholiadol Dyfan yn y Barri ac, o ganlyniad, byddai'r ward honno'n cael ei chynrychioli gan 3 cynghorydd sir, a byddai Cosmeston ym Mhenarth yn ffurfio ward etholiadol newydd wedi'i chynrychioli gan un cynghorydd sir.
- Byddai Llan-maes yn cael ei throsglwyddo o ward etholiadol bresennol Llanilltud Fawr i ward etholiadol Llandŵ, heb newid ei chynrychiolaeth o ran cynghorwyr.
- Byddai Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd yn trosglwyddo o Ddinas Powys i ward etholiadol Llandochoau.
- Byddai Llwyneliddon yn trosglwyddo o Wenfô i ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan.
- Byddai ward Pen-marc yn trosglwyddo o'r Rhws i ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan, a
- Byddai Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái yn trosglwyddo o Sain Nicolas a Llancarfan i ward etholiadol newydd Llanbedr-y-fro.

3. Ymateb a awgrymwyd gan Gyngor Bro Morgannwg i gynigion y Comisiwn Ffiniau fel ymynghorai annibynnol, **paragraffau 2.5 - 2.26.**

I grynhoi, byddai'r pwyntiau strategol canlynol yn cael eu hadlewyrchu yn ymateb Cyngor Bro Morgannwg:

- Derbyn y newidiadau arfaethedig i'r ffin rhwng Penarth a Sili.
- Derbyn ward newydd y Glannau yn y Barri.
- Derbyn y newidiadau arfaethedig i'r Bont-faen a Llanfleiddan a'r newidiadau cysylltiedig i'r ffiniau.
- Derbyn y newidiadau arfaethedig i Lanilltud Fawr.
- Derbyn y trefniadau newydd yn y Fro wledig, yn amodol ar y sylwadau a'r cafeatau a ganlyn:

No.

- Ystyried un gymuned newydd ar gyfer Tregolwyn a Llan-gan fel y cyfeiriwyd ati ym mharagraffau 2.23 a 2.24 o adroddiad y Cabinet.
- Ailddrafftio ffin ward Brooklands yng Ngwenfô a'r newidiadau cysylltiedig i'r ffin rhwng cymunedau Sain Nicolas a Gwenfô a mân newidiadau eraill i ffiniau wardiau yn Sain Nicolas a Thresimwn, ac
- Ystyriaeth i rai o enwau'r Cynghorau newydd arfaethedig, oherwydd hyd rhai o'r enwau newydd.

I gloi, ailadroddodd y Prif Weithredwr y ffaith bod pob Cyngor Tref a Chymuned, yn ogystal ag unigolion, yn gallu mynegi sylwadau'n uniongyrchol wrth y Comisiwn mewn ymateb i'w gynigion. Byddai'r ymgynghoriad cyfredol yn parhau hyd 30 Hydref 2023.

Ar ôl cyflwyniad y Prif Weithredwr, croesawodd y Cadeirydd unrhyw gwestiynau neu sylwadau ynghylch yr adroddiad. Dyma grynodedb ohonynt:

Sylw(adau)/Cwestiwn(cwestiynau)	Ymateb y Prif Weithredwr
<p>Cyngor Cymuned Dinas Powys Roedd y newidiadau arfaethedig i ffiniau Ward Gymunedol Dinas Powys yn dderbyniol i'r Cyngor ar y cyfan, gan eu bod yn golygu nad oedd yn rhaid i'r Cyngor Cymuned greu 5ed ward. Er hynny, roedd y Cyngor Cymuned yn pryderu ynghylch y bwriad i drosglwyddo tai ar hyd Heol Sili. Ystyriwyd nad oedd hi'n gwneud unrhyw synnwyr, a'i bod yn annerbyniol symud y tai dan sylw i Benarth. Roedd un o Gynghorwyr Cymuned Dinas Powys yn byw yn yr ardal dan sylw, a bu'n cynrychioli ardal Dinas Powys ers blynyddoedd lawer.</p>	<p>Cydnabuwyd y byddai gwahaniaeth barn ymhlith yr ymgynghoreion ynghylch llawer o'r cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn. Ar ôl edrych ar y ffiniau rhesymegol, daethpwyd i'r farn fod Heol Sili yn ffin resymegol, gyda thai ar y naill ochr a'r llall i'r ffordd wedi'u cynrychioli gan Gyngor Tref Penarth, yng ngoleuni'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r eiddo dan sylw yn edrych tuag at Benarth, neu â chysylltiad â Phenarth. Byddai'r Swyddog Gwasanaethau Democraataidd yn casglu holl sylwadau'r cyfarfod, ond cynigwyd y dylai Cyngor Cymuned Dinas Powys rannu ei safbwyntiau'n uniongyrchol â'r Comisiwn er mwyn galluogi'r Comisiwn i ystyried sylwadau pawb.</p>
<p>Cyngor Cymuned Llanfair Roedd y Cyngor Cymuned wedi cynnal cyfarfod yn ddiweddar i drafod cynigion y Comisiwn. Roedd y Cyngor wedi mynegi pryderon yn flaenorol ynghylch cynigion yn y dyfodol, a fyddai'n golygu colli hunaniaeth wledig y Cyngor o'i gyfuno â chyngor mwy Tref y Bont-faen. Teimlai'r Cyngor fod rhai o'r problemau a wynebodd dros y blynyddoedd diweddar o natur wledig iawn, fel glampio a chydweithio â'r heddlu ar</p>	<p>Yng nghyfarfod 23 Mawrth o'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, pan gafodd yr adolygiad ei ystyried ddiwethaf gan y Pwyllgor, un o'r awgrymiadau a gyflwynwyd i'r Comisiwn gan y Cyngor oedd cyfuno Cyngor Cymuned Llan-maes â Chyngor Tref mwy Llanilltud Fawr, ac roedd Cyngor Cymuned Llan-maes yn gryf ei wrthwynebiad i'r syniad o uno. Cafodd y cynnig ei ystyried gan y Comisiwn, ond roedd y Comisiwn wedi dewis gwneud cynigion gwahanol yn</p>

<p>broblemau Lampio ar dir fferm o amgylch y tri phentref a oedd wedi'u cynnwys yn y Cyngor Cymuned. Yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, tybiwyd y byddai'n briodol cynnal trafodaethau pellach â Chynghorau Cymuned cyfagos Llandŵ a Llan-maes i weithio ar gynnig ar y cyd mewn ymateb i'r comisiwn ffiniau.</p> <p>Ar ôl ystyried y niferoedd etholiadol, yr agoswydd at Gyngor Cymuned Llan-maes, yn ogystal â chyfansoddiad cymunedol tebyg pentrefi eraill cyfagos fel Llyswyrni (sydd ar hyn o bryd wedi'i gynnwys yng Nghyngor Cymuned Llandŵ), tybiwyd y byddai'n briodol cynnal trafodaeth â'r ddau Gyngor Cymuned arall i weld a ellid cyflwyno unrhyw gynigion amgen i'r Comisiwn.</p>	<p>seiliedig ar y berthynas rhwng Cynghorau Cymuned.</p> <p>Gan hynny, nid oedd y sylwadau a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Llanfair yn wahanol iawn i'r trafodaethau blaenorol, er bod hyn yng nghyd-destun Llan-maes/Llanilltud Fawr.</p> <p>Cydnabuwyd bod y Cyngor Cymuned yn bwriadu cyflwyno sylwadau'n uniongyrchol i'r Comisiwn ac roedd Cyngor Bro Morgannwg yn ddiolchgar o gael gweld beth oedd bwriadau'r Cyngor Cymuned, a nodwyd hynny.</p>
<p>Cyngor Cymuned Ewenni a Chorntwn</p> <p>Cynigiwyd gefeillio'r Cyngor Cymuned â Saint-y-brid ac Ogwr, ond ym marn y Cyngor Cymuned, ni fyddai'r cynnig i uno yn galluogi preswylwyr Ewenni i gael eu cynrychioli'n briodol.</p> <p>Teimlai'r Cyngor ei fod ar wahân i Saint-y-brid ac Ogwr o safbwynt daearyddol, a bod Cyngor Cymuned Ewenni yn Gyngor Cymuned a oedd wedi'i sefydlu ers tro, gyda'i anghenion a'i ofynion penodol ei hun yn yr ardal, ac nad y ffordd orau o wasanaethu'r rheiny fyddai uno'r Cyngor â chyngor arall.</p> <p>Yn y bôn, byddai'r cynigion y golygu diddymu'r broses ddemocrataidd, gan y byddai'r symud ymhellach i ffordd o'r ardal a weinyddir ar hyn o bryd gan y Cyngor Cymuned.</p> <p>Ar hyn o bryd, roedd y Cyngor Cymuned yn casglu safbwyntiau, ac roedd yn bwriadu cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn Ffiniau, gan fynegi ei anfodlonrwydd ynghylch y cynigion. Un arall o bryderon y Cyngor Cymuned oedd bod y cynigion yn seiliedig ar gyfrifiad mathemategol yn hytrach nag</p>	<p>Roedd paragraff 2.5 yn esbonio'r ystyriaethau a gymhwyswyd gan Fro Morgannwg wrth lunio'i ymateb annibynnol i'r Comisiwn.</p> <p>Roedd y sylwadau a godwyd gan y cynrychiolydd yn cael eu parchu ac argymhellwyd codi'r un farn yn uniongyrchol gyda'r Comisiwn.</p>

ar hunaniaeth leol a gwleidyddiaeth leol.	
<p>Cyngor Cymuned Llandŵ Roedd gan y Cyngor bryderon tebyg i rai Cyngor Cymuned Ewenni a Chorntwn, yng nghyd-destun y posibilrwydd o uno â Chyngor Cymuned Llan-maes, o ran niferoedd etholiadol, cynrychiolaeth y gymuned a hunaniaeth y tri phentref sydd ar hyn o bryd yn ffurfio ardal Llandŵ. Roedd y polisi maint yn anwybyddu cyfansoddiad yr ardal. Er enghraifft, roedd gan Gyngor Cymuned Llandŵ yr ardal ddiwydiannol o fewn ei ffin yn ogystal â'r unig ail ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref ar gyfer holl ardal Bro Morgannwg. Roedd y rhain yn rhoi mwy o bwysau ar y Cyngor Cymuned nag mewn ardaloedd eraill. Pe bai'r Cyngor Cymuned yn gostwng i'r niferoedd a awgrymwyd, roedd hi'n debygol na fyddai rhai ardaloedd wedi'u cynrychioli, neu y byddent wedi'u tangynrychioli o fewn y Cyngor Cymuned cyfredol fel yr oedd ar hyn o bryd. Roedd gan y Cyngor bryderon hefyd ynghylch lefel y praesept rhwng y ddau gyngor y cynigiwyd ymuno â nhw a'r hyn yr oedd hynny'n ei olygu o ran gallu cynnal trafodaeth briodol ar wariant, a phleidleisio ynghylch hynny. Roedd gan Gyngor Cymuned Llan-maes braesept uwch na Chyngor Cymuned Llandŵ. Bwriad y Cyngor Cymuned oedd llunio cynnig manwl a gwrthwynebiad i'r Comisiwn Ffiniau ar y sail y dylid cadw Llandŵ yn ei faint a'i gyfansoddiad presennol, am resymau democrataidd. Yn y bôn, roedd y Cyngor Cymuned yn dymuno aros fel yr oedd, yn hytrach na thyfu i unrhyw gyfeiriad arbennig yn y rhanbarth, er mwyn osgoi gwario cynrychiolaeth a hunaniaeth y pentref lleol.</p>	<p>Deallwyd y pwyntiau a godwyd gan y Cynrychiolydd, ac roeddent yn adlewyrchu sylwadau a gafwyd yn flaenorol yn ystod y cyfarfod.</p> <p>Cydnabuwyd bod Cyngor Cymuned Llandŵ yn dymuno cadw trefniadau cyfredol ei Gyngor yn hytrach nag uno ag unrhyw Gyngorau Tref neu Gymuned eraill.</p>
Cyngor Cymuned Tregolwyn	Roedd y Comisiwn yn cynnal yr adolygiad, yr oedd Cyngor Bro

<p>Roedd y Comisiwn Ffiniau wedi edrych ar yr adolygiad cymunedol yn fanwl ac wedi canfod ei bod yn gwneud synnwyr i Dregolwyn a Llan-gan aros ar wahân er nad oedd nifer yr etholwyr unigol yn cyrraedd 1000. Gan hynny, Cyngor Bro Morgannwg oedd â'r unig broblem ynghylch cadw'r ddau gyngor ar wahân.</p> <p>Roedd Llan-gan a Thregolwyn chwe milltir oddi wrth y naill a'r llall, yn bentrefi ar wahân, heb unrhyw beth yn gyffredin rhyngddynt, felly nid oedd y cynnig i uno yn gwneud synnwyr.</p>	<p>Morgannwg yn ymgynghorai ar ei gyfer, ac felly gallai gyflwyno sylwadau fel pob ymgynghorai arall.</p> <p>Llywodraeth Cymru, ar lefel weinidogol, fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch y cynigion a wneir.</p> <p>Ar ôl cwblhau cyfnod Ymgynghori ar y Cynigion Drafft (30 Hydref 2023), byddai'r holl sylwadau a gyflwynwyd wedyn yn cael eu hystyried gan y Comisiwn, ac Argymhellion Terfynol yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Byddent hwy wedyn, pe baent yn ystyried hynny'n briodol, yn gweithredu'r argymhellion fel yr oeddent wedi'u cyflwyno, neu'n eu haddasu.</p> <p>Byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud ei phenderfyniad yn seiliedig ar yr adolygiad a fyddai'n cael ei gynnal gan y Comisiwn a fyddai'n seiliedig ar yr adborth a'r sylwadau a geir gan ymgynghoreion fel Cyngor Cymuned Tregolwyn.</p>
<p>Cyngor Cymuned Llan-gan Mae Llan-gan, Treoes ac Eglwys Fair y Mynydd yn ardaloedd gwahanol ianw i Dregolwyn.</p> <p>Roedd y Cyngor Cymuned hefyd yn ffinio ag awdurdod lleol gwahanol iawn, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, felly roedd materion y Cyngor Cymuned yn gwbl ar wahân ac yn amherthnasol i drigolion Tregolwyn. Efallai bod ardal gymunedol Llan-gan yn ardal fach iawn yn ddaearyddol, ond roedd ei materion yn hollol wahanol i Dregolwyn.</p>	<p>Nodwyd a deallwyd sylwadau'r Cynrychiolydd.</p>
<p>Cyngor Cymuned Llan-maes Roedd y Cyngor Cymuned yn ddiolchgar nad oedd y Comisiwn Ffiniau wedi cynnig uno Llan-maes â Chyngor Tref Llanilltud Fawr fel yr awgrymwyd yn wreiddiol.</p>	<p>Roedd y ffin ar hyd Heol Fynediad y Gogledd yn cael ei chynnig gan y Comisiwn, ac roedd hi'n rhesymegol i Gyngor Bro Morgannwg gefnogi'r newid hwnnw i'r ffin. Roedd hyn nid yn unig y deillio o'r ffaith mai ond dwy</p>

<p>Roedd yn siomedig clywed y byddai Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi cynnig y Comisiwn Ffiniau i newid ffiniau Cymuned Llan-maes, gan nad oedd y newidiadau ond yn ymwneud â 2 eiddo, a oedd yn cynnwys 5 unigolyn, a oedd eu hunain yn ystyried eu bod yn byw mewn ardal wledig, ac a oedd felly'n dymuno aros o fewn cyngor cymuned yn hytrach na chynngor tref. Roedd y ffiniau presennol yn seiliedig ar gwrs dŵr, a oedd yn aml yn ddull rhesymegol o bennu ffiniau. Fodd bynnag, roedd y newid i'r ffiniau a oedd yn cael ei awgrymu yn y cynnig cyfredol yn golygu y byddai'r ffiniau'n dilyn ffordd yn hytrach na chwrs dŵr, ac roedd hynny'n destun siom.</p>	<p>annedd yr oedd y newid yn effeithio arnynt, ond hefyd oherwydd bod datblygiad arfaethedig hefyd dan ystyriaeth ar hyd yr un ardal o dir i'r dyfodol,</p> <p>Roedd nifer o safleoedd wedi'u nodi yng Nghynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg, a phe bai'r rheiny'n cael eu datblygu, byddai hynny'n golygu bod nifer sylweddol o anheddau'n cael eu codi. Ym marn y Cyngor, ar sail perthynas yr eiddo dan sylw, a'r newid i gymeriad yr ardal yn sgil datblygu yn y dyfodol, byddai'n gweddu'n well i leoli'r gymuned o dan Llanilltud Fawr.</p> <p>Roedd y Cynrychiolwyr wedi cyflwyno'u sylwadau'n dda, a'r rheiny wedi'u nodi. Argymhellwyd bod y Cyngor Cymuned yn codi'r sylwadau yn uniongyrchol gyda'r Comisiwn.</p> <p>Byddai sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cyfeirio'n ôl i sylw Gabinet Cyngor Bro Morgannwg er ystyriaeth.</p>
<p>Cyngor Tref y Barri Roedd y cynigion sy'n berthnasol i Gyngor Tref y Barri i'w gweld yn rhesymegol wrth symud ymlaen. Yr unig fân feirniadaeth oedd y gallai Ward Cadog yn y Barri fod yn rhy fawr, felly gellid awgrymu y dylid rhannu ward Cadog yn ddwy. Roedd democratiaeth yn iach iawn yn y Barri, a byddai nifer y bleidiau'n cystadlu'n frwd am bob sedd mewn etholiadau. Gan hynny, gobeithiwyd y byddai'r cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn o gymorth i hyrwyddo democratiaeth mewn cymunedau llai ledled y Fro drwy annog a chynnal etholiadau, gan nad oedd cystadleuaeth am lawer o seddau yn y Cynghorau Cymuned.</p>	<p>Yng nghyd-destun y sylw a godwyd gan y Cynrychiolydd mewn perthynas â Ward Cadog yn y Barri, roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn nodi newid bach a oedd yn cael ei awgrymu'n gysylltiedig symud llain fechan o dir oddi ar Port Road ym mhen gogleddol y Barri o ward Gibbonsdown i ward Cadog.</p> <p>Gwnaed y cynnig yn syml i adlewyrchu unrhyw waith i ddatblygu'r tir hwnnw yn y dyfodol, ac oherwydd y ffaith y byddai'r mynediad i'r tir hwnnw oddi ar strydoedd a oedd ar hyn o bryd o fewn ward Cadog. Felly, roedd sail resymegol wrth wraidd yr awgrym i gynyddu Ward Cadog, a oedd yn groes i sylwadau'r Cynrychiolydd.</p> <p>Bu Gweithgor Trawsbleidiol Bro Morgannwg yn edrych yn weddol fanwl ar Ward Cadog yn y Barri,</p>

	<p>oherwydd ei maint, ac yn ystyried a fyddai'n well rhannu'r ward yn ddwy ward ar wahân. Fodd bynnag, ni aeth y Gweithgor rhagddo i argymhell hynny.</p> <p>Nid oedd Cyngor Bro Morgannwg wedi gweld y sylwadau a wnaeth Cyngor Tref y Barri yn uniongyrchol i'r Comisiwn, ond roedd gan y Cyngor Tref hawl i godi'r argymhelliad gyda'r Comisiwn yn uniongyrchol.</p> <p>Roedd aelodaeth gyfredol, nifer yr aelodau a oedd yn cael eu cyfethol, a swyddi gwag achlysurol, a oedd yn rhoi syniad o effeithiolrwydd trefniadau cyfredol y Cyngor Tref neu Gymuned, yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'i ymateb i'r Comisiwn ynghylch yr adolygiad, fel y nodwyd eisoes ym mharagraff 2.5 yr adroddiad. Byddai'r pwynt dilys a godwyd gan y cynrychiolydd yn cael ei ystyried gan y Comisiwn Ffiniau.</p>
<p>Cyngor Cymuned Gwenfô Roedd y Cyngor Cymuned wedi cynnal cyfarfod i drafod y cynigion ac roedd yn chwyrn yn erbyn y cynigion a gyflwynwyd. Roedd Cymuned Gwenfô yn gymuned glos, ac nid oedd y cynigion yn gwneud unrhyw synwyr o gwbl.</p> <p>Un o'r prif resymau dros wrthwynebu oedd y caeau chwarae a'r rhandiroedd yn Nhwyn-yr-Odyn, a oedd yn eiddo i Gyngor Cymuned Gwenfô, ac a adawyd mewn ewyllys i'r Cyngor gryn amser yn ôl i'w defnyddio gan bobl sy'n byw yng nghymuned Gwenfô.</p> <p>Roedd deiseb wedi'i threfnu gan y Cyngorydd Russell Godfrey ymhlith preswylwyr Dyffryn, Llwyneliddon a Thwyn-yr-Odyn, ac ni fynegodd yr un preswilydd ddymuniad i symud allan o gymuned Gwenfô.</p> <p>Roedd mater arall pwysig yn derbyn sylw parhaus hefyd, yn gysylltiedig â chynnig am fferm paneli solar, yr oedd</p>	<p>Nodwyd sylwadau'r cynrychiolydd ynghylch caeau chwarae a rhandiroedd Twyn-yr-Odyn, ac roeddent yn berthnasol.</p> <p>Er eglurder, roedd y cynnig i sefydlu ward newydd yn ardal Gwenfô, o dan yr enw Brooklands, yn awgrym a godwyd gan Gynrychiolydd Gwenfô a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar 23 Mawrth, ac roedd y Comisiwn wedi mabwysiadu'r awgrym yn ei gynigion. Fodd bynnag, ymateb Cyngor Bro Morgannwg i'r cynigion fyddai gofyn i'r Comisiwn aildrafftio ffiniau ward Brooklands i gynnwys ystâd dai Parc Llwyneliddon.</p> <p>Ni fyddai dalgylchoedd ysgol na'r lleoliadau y byddai plant yn teithio iddynt i fynd i'r ysgol yn newid yn ddiodyn i gyd-fynd â ffiniau Cyngor Cymuned. Gan hynny, mater ar wahân oedd asesu'r cynigion ar sail</p>

<p>ymgyngoriad yn cael ei gynnal arni â phreswylwyr Dyffryn.</p> <p>Cyn etholiad diwethaf y Cynghorau Tref a Chymuned, collodd cymuned Gwenfô ward Sain Nicolas a Thresimwn i Ward Llancarfan, felly nid oedd Cyngor Cymuned Gwenfô am gael unrhyw newidiadau pellach.</p> <p>Roedd Sain Nicolas a Thresimwn yn ardaloedd a oedd yn datblygu ac ynddynt gynlluniau datblygu eiddo preswyl ar y gweill, ac roedd bwriad felly i gynyddu nifer y trigolion ynddynt, ond ni ddylai hynny fod ar draul cymuned Gwenfô.</p> <p>Roedd ffiniau cymuned Gwenfô yn weddol dynn ac yn cwmpasu'r ardal yn ei chyfanrwydd.</p> <p>Roedd pryderon hefyd y gallai'r cynigion beri i blant ysgol orfod teithio yn llawer pellach i'r ysgol o Sain Nicolas nag yr oeddent yn ei deithio ar hyn o bryd.</p>	<p>cyfeiriadau eiddo o dan ddalgylchoedd ysgol neilltuol.</p> <p>Mewn ymateb i sylw atodol y Cynrychiolydd ei bod yn ymddangos, o'r trafodaethau blaenorol uniongyrchol rhyngddo â'r Comisiwn, roedd hi'n ymddangos bod y Comisiwn o'r farn mai Cyngor Cymuned Gwenfô yn hytrach na Chyngor Cymuned Sain Nicolas oedd wedi cychwyn y cynigion i newid. Dywedodd y Prif Weithredwr fod sylw'r Cynrychiolydd yn dangos pa mor bwysig yw hi i Gynghorau Cymuned gyflwyno sylwadau'n uniongyrchol i'r Comisiwn.</p>
<p>Cyngor Cymuned Penllyn</p> <p>Roedd y Cyngor Cymuned yn falch iawn o weld bod y Comisiwn Ffiniau a gweithgor trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg ill dau wedi cefnogi cynigion y Cyngor Cymuned o ran ardal Penllyn, yn enwedig o ran yr ardal y byddai datblygiad preswyl Fferm Darren yn effeithio arni.</p> <p>Roedd Cyngor Tref y Bont-faen yn chwilio am ardal lawer mwy yn gysylltiedig â datblygiad Fferm Darren, a fyddai wedi cael effaith ddifrifol ar ystâd Penllyn a'r Eglwys yn yr ardal, felly roedd y Cyngor Cymuned yn falch o weld bod y cynigion yn lliniaru hyn.</p> <p>Roedd y Cyngor Cymuned yn pryderu am y gostyngiad a gynigiwyd yn nifer y cynghorwyr, gan fod y Cyngor yn gweld bod y niferoedd presennol o gynghorwyr yn gweithio'n dda iawn ac ystyried natur cymharol wasgaredig yr ardal. Gan hynny, byddai'r cyngor yn argymhell i'r Comisiwn na ddylid gostwng nifer y cynghorwyr, ar sail y</p>	<p>Nodwyd sylwadau'r Cynrychiolydd, yn enwedig ei gefnogaeth i ddiwygio'r ffiniau.</p>

ffaith mai canllaw yn unig oedd y polisi maint.	
<p>Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn</p> <p>Er eglurder, nid oedd Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn na'r aelod ward perthnasol am i Dwyn-yr-Odyn ymuno â Sain Nicolas, felly roedd yr wybodaeth a rannwyd â'r cyhoedd yn anghywir.</p> <p>O ran caeau chwarae a rhandiroedd Twyn-yr-Odyn, gallai'r cyfleusterau hynny aros o fewn ardal Cyngor Cymuned Gwenfô, ac roedd hynny wedi'i gefnogi gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn.</p>	<p>Ystyriai Atodiad 2 yr adroddiad gynigion y Comisiwn mewn perthynas â'r llinellau terfyn newydd rhwng Cyngorau Cymuned Gwenfô a Sain Nicolas a Thresimwn.</p> <p>Awgrymwyd bod ward newydd Brooklands a gynigiwyd yn cael ei lleoli o fewn Gwenfô, a'i bod yn cynnwys y naill ochr a'r llall i'r darn o Port Road a oedd yn arwain at Groes Cwrlwys, gan gwmpasu dwy ystâd fodern: Brooklands Terrace a Pharc Llwyneliddon.</p> <p>Roedd y Cynrychiolydd yn gywir ynghylch y ffaith nad oedd Atodiad 2 yn cynnwys y rhandiroedd a'r caeau chwarae y cyfeiriwyd atynt, a oedd yr ochr arall i'r ffordd yr oedd Cyngor Bro Morgannwg wedi'i hawgrymu fel ffin. Byddai sylwadau'r Cynrychiolydd felly'n cael eu nodi a'u dwyn ymlaen.</p>
<p>Cyngor Cymuned Y Wig</p> <p>Byddai'r cyngor yn ysgrifennu at y Comisiwn i wrthwynebu'r cynigion. Roedd sylwadau a godwyd gan gynghorwyr ar lefel Tref yn dangos diffyg dealltwriaeth ynghylch sut mae democratiaeth yn gweithio mewn cymunedau bach. Roedd hi'n anghywir awgrymu bod diffyg democrataidd o fewn Cyngorau Cymuned, os nad oedd etholiad wedi'i gynnal.</p>	<p>Nodwyd sylwadau'r Cynrychiolydd.</p>

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach gan Gynrychiolwyr Cyngorau Tref a Chymuned ar y pwyllgor, gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau gan aelodau etholedig Cyngor Bro Morgannwg a oedd hefyd ar y Pwyllgor.

I gefnogi Cyngorau Tref a Chymuned, amlygodd y Cynghorydd Haines ei bod hi'n ymddangos fel pe bai dymuniad i wasgu Cyngorau Cymuned llai at ei gilydd a chael gwared â'u cymeriad. Byddai lleihau nifer y cynghorwyr a oedd yn cynrychioli cymunedau llai yn achosi i gynghorau golli eu cymeriad a'u gwerth fel cymuned. Byddai cadw'r Cyngorau Cymuned llai fel y maent yn cynnig gwell gwerth am arian, gan fod y praeseptau'n fach iawn ac nad oedd Cynghorwyr Cymuned yn derbyn tâl. Er hynny, roedd ganddynt feddwl mawr o'u cymunedau a'u prosiectau eraill.

No.

Fel ail bwynt, nododd y Cyngorydd Haines ei bod hi'n well peidio seilio cynigion ar ragdybiaethau ynghylch yr hyn a fyddai'n cael ei gynnwys neu ei hepgor yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor, neu'r hyn a fyddai'n digwydd neu na fyddai'n digwydd o fewn cymuned yn y dyfodol, oherwydd gallai hynny olygu bod addewidion i'r ardal yn cael eu torri. Roedd hi'n bwysig felly i Gyngor y Fro feddwl yn ofalus am yr hyn y byddai'n argymhell i'r Comisiwn.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Prif Weithredwr fod adolygiadau cymunedol yn cael eu cynnal bob 10 mlynedd ac felly, ac ystyried yr amserlenni, fod angen ystyried datblygiadau yn y dyfodol yn y rhanbarth er mwyn diogelu trefniadau newydd i'r dyfodol. Byddai peidio gwneud hynny'n gamgymeriad ar ran y Cyngor.

Wedyn, nododd y Cyngorydd Wilson fod nifer o Gyngorau Cymuned heb gynnal etholiadau yn etholiadau 2022, a bod unigolion felly wedi'u cyfethol, a oedd yn destun pryder gan nad oedd digon o unigolion yn sefyll ar gyfer nifer y seddau ar oedd ar gael. I raddau, roedd adroddiad y Cabinet ac argymhellion dilynol Cyngor Bro Morgannwg yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem. Dymuniad pawb oedd i ddemocratiaeth weithio'n dda yn ardal Bro Morgannwg yn ei chyfanrwydd, yn hytrach nag yn y prif drefi yn unig.

Fel ail bwynt, nododd y Cyngorydd Wilson wedyn fod cymunedau'n tyfu'n gryfach ac yn cynyddu eu gallu i wneud pethau wrth gydweithio, yn hytrach bod hynny'n eu gwario, gan eu bod yn cyfuno arian ac adnoddau a hefyd yn fwy tebygol o gael eu clywed ar raddfa'r cyngor sir.

Anaml yr oedd adolygiadau cymunedol yn cael eu cynnal, felly roedd angen meddwl ymlaen i ddiogelu cymunedau i'r dyfodol, o ran y modd y byddent yn datblygu dros y degawd dilynol nes cynnal yr adolygiad nesaf.

Gyda chaniatâd y Pwyllgor, aeth y Cyngorydd Dr. Johnson wedyn ymlaen i annerch y pwyllgor er mwyn amlygu bod y sefyllfa wleidyddol yn amlwg yn wahanol yn rhai o'r ardaloedd mwy trefol o gymharu â rhai o'r ardaloedd mwy gwledig. Er enghraifft, yn y gorffennol byddai wedi bod yn ofynnol i Gyngorydd Tref ennill dros 1000 o bleidleisiau i gael ei ethol yn llwyddiannus, a oedd yn fwy na maint nifer o etholaethau Gyngorau Cymuned presennol.

Yna, dywedodd y Cyngorydd Dr. Johnson, o blith holl Gyngorau Tref a Chymuned Bro Morgannwg, dim ond chwech a gynhaliodd etholiadau yn 2022 hyd y gwyddai, felly roedd hyn yn cynrychioli diffyg democrataidd lle'r oedd pobl yn pennu trethi lleol heb gael eu hethol gan bobl leol.

Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y Cyngorydd Dr. Johnson ynghylch presenoldeb aelod o'r grŵp ceidwadol yng Ngweithgor Trawsbleidiol Bro Morgannwg, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod pob grŵp gwleidyddol a phob aelod annibynnol o Gyngor Bro Morgannwg yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol yn y cyfarfodydd grŵp. Cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Canlyniadau, o gofnodion y weithgor, fod y Cyngorydd Carroll yn bresennol yng nghyfarfodydd y grŵp ym mis Hydref a mis Tachwedd.

Yn dilyn y sylwadau a godwyd gan y Cynghorydd Haines, Wilson a Dr. Johnson, roedd Cynrychiolydd Cyngor Cymuned y Wig am ymateb drwy anghytuno, a nododd fod y sylwadau a godwyd gan y cynghorwyr ar lefel y Dref yn arddangos diffyg dealltwriaeth ynghylch y modd y mae democratiaeth yn gweithio mewn cymunedau bach. Roedd hi'n anghywir awgrymu bod diffyg democrataidd o fewn Cyngorau Cymuned, os nad oedd etholiad wedi'i gynnal. Etholiadau neu beidio, roedd Cynghorwyr Cymuned mewn cysylltiad agos iawn â'u cymunedau, a phe bai unigolyn heb gynrychioli ei gymunedau'n effeithiol, byddai pobl yn gwybod am hynny'n ddigon buan.

Dywedodd y Cynghorydd Hodges wedyn mai bach iawn oedd maint rhai o gyllidebau'r Cyngorau Cymuned, a hyd y gwyddai, roedd gan chwech neu saith o Gyngorau Cymuned gyllideb o lai na £10k, a oedd yn eithriadol o fach ar ôl rhoi cyfrif am gyflog y clerc. Golygai hyn mai ychydig iawn o arian oedd ar gael i wneud unrhyw beth, ac roedd hi'n hynod bwysig creu newid yn y gymuned drwy ddefnyddio'r praesept a oedd ar gael i gyngor. Gan hynny, gallai cynyddu maint a phoblogaeth cymuned gynyddu cyfle etholwyr i gymryd rhan mewn etholiadau lleol, a chynyddu'r arian sydd ar gael i greu newid ystyrion.

Mewn ymateb i hyn, cadarnhaodd Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Y Wig fod yr wybodaeth am braeseptau a oedd wedi'i nodi ar wefan Bro Morgannwg yn anghywir. Nid oedd modd gweld cyllideb y Cyngor Cymuned ar wefan y Cyngor, ac nid canolbwyntio ar wario praeseptau yn unig a wnâi'r Cyngor Cymuned drwy ei ymdrechion - yr oedd hefyd yn codi arian drwy grantiau. Roedd Cynghorwyr Tref yn dweud nad oedd hyn wedi'i gynnwys yn y praesept, ac roedd hynny'n gwbl anghywir ac yn dangos bod cynghorwyr tref yn camddeall natur democratiaeth yn yr ardaloedd gwledig. Roedd yna wrthnawsedd gwirioneddol yng Nghyngor y Fro tuag at ardaloedd gwledig, ac roedd hynny wedi'i ddangos yn gryf yn ystod y cyfarfod.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, felly penderfynodd y Pwyllgor

CYTUNWYD - BOD y Pwyllgor yn nodi ymateb drafft Bro Morgannwg i gynigion drafft y Comisiwn Ffiniau, ymateb awgrymedig a thrafodaethau'r Cabinet ar y cynigion yn ei gyfarfod ar 5 Hydref, ynghyd â sylwadau canlynol y Pwyllgor ar yr awgrymiadau a godwyd yn yr adroddiad i'w hanfon ymlaen i'r Cabinet, fel a ganlyn:

- **Cyngor Cymuned Dinas Powys** - Roedd y newidiadau arfaethedig i ffiniau Ward Gymunedol Dinas Powys yn dderbyniol i'r Cyngor ar y cyfan, gan eu bod yn osgoi'r angen i'r Cyngor Cymuned greu 5ed ward. Fodd bynnag, roedd y Cyngor Cymuned yn pryderu am y bwriad i drosglwyddo tai ar hyd Sully Road. Ystyriwyd bod symud y tai dan sylw i Benarth yn eithaf afresymol ac annerbyniol.
- **Cyngor Cymuned Llanfair** - Roedd pryderon wedi eu mynegi'n flaenorol gan y Cyngor mewn perthynas â chynigion yn y dyfodol a fyddai'n golygu colled mewn hunaniaeth wledig pe bai'n uno â chyngor tref mwy'r Bont-faen. Ar ôl ystyried y niferoedd etholiadol, yr agoswydd at Gyngor Cymuned Llan-faes, yn ogystal â chyfansoddiad cymunedol tebyg pentrefi cyfagos eraill fel Llyswyrny (a oedd yn eistedd o dan Gyngor Cymuned Llandŵ ar hyn o bryd), ystyriwyd ei bod yn briodol cael trafodaeth gyda'r

ddau Gyngor Cymuned arall i weld a ellid cyflwyno unrhyw gynigion amgen eraill i'r Comisiwn.

- **Cyngor Cymuned Ewenni a Chorntwn** - Roedd y Cyngor Cymuned yn bwriadu gwneud sylwadau i'r Comisiwn Ffiniau yn lleisio ei anfonlonrwydd gyda'r cynigion. Barn y Cyngor Cymuned oedd na fyddai'r uno a awgrymwyd gyda Saint-y-brid ac Ogwr yn galluogi cynrychioli trigolion Ewenni yn iawn. Teimlai'r Cyngor ei fod ar wahân yn ddaearyddol i Saint-y-brid ac Ogwr ac roedd wedi bod yn Gyngor Cymuned hirsefydlog gyda'i anghenion a'i ofynion penodol ei hun yn yr ardal, na fyddai'n cael ei wasanaethu orau trwy ymuno ag un arall. Byddai'r cynigion yn diddymu'r broses ddemocrataidd oherwydd byddai'n symud ymhellach i ffwrdd o'r ardal a weinyddir ar hyn o bryd gan y Cyngor Cymuned. Roedd y cynigion yn seiliedig ar gyfrifiad mathemategol yn hytrach na hunaniaeth leol a gwleidyddiaeth leol.
- **Cyngor Cymuned Llandŵ** - Bwriad y Cyngor Cymuned oedd llunio cynnig a gwrthwynebiad manwl ar gyfer y Comisiwn Ffiniau ar y sail y dylai Llandŵ aros ar ei faint a'i gyfansoddiad presennol er mwyn osgoi gwanhau cynrychiolaeth a hunaniaeth pentref lleol.
- **Cyngor Cymuned Tregolwyn** - Roedd y Comisiwn Ffiniau wedi edrych ar yr adolygiad cymunedol yn fanwl ac wedi canfod ei fod yn gwneud synnwyr i Dregolwyn a Llan-gan aros ar wahân er nad oedd nifer yr etholwyr unigol yn cyrraedd 1000. Felly, gyda Chyngor Bro Morgannwg oedd yr unig broblem o ran cadw'r ddau gyngor ar wahân. Roedd Llan-gan a Thregolwyn chwe milltir ar wahân, yn sylweddol wahanol, yn bentrefi ar wahân, heb unrhyw beth yn gyffredin, felly nid oedd yr uno a awgrymwyd yn gwneud synnwyr.
- **Cyngor Cymuned Llan-gan** - Roedd y Cyngor Cymuned yn ffinio ag awdurdod lleol gwahanol iawn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr felly, roedd materion y Cyngor Cymuned yn hollol ar wahân ac yn amherthnasol i'r trigolion a oedd yn byw yn Nhregolwyn. Efallai mai ardal fach iawn yn ddaearyddol yw ardal gymunedol Llan-gan, ond roedd ei materion yn hollol wahanol i Dregolwyn.
- **Cyngor Cymuned Llan-faes** - Roedd y Cyngor Cymuned yn ddiolchgar nad oedd y Comisiwn Ffiniau wedi cynnig uno Llan-faes gyda Chyngor Tref Llanilltud Fawr fel yr awgrymwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, siomedig oedd clywed y byddai Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi cynnig y Comisiwn Ffiniau ar gyfer newidiadau i ffin Gymunedol Llan-faes oherwydd y ffaith fod y newidiadau yn cynnwys 2 eiddo yn unig, yn cartrefu 5 unigolyn, a oedd yn ystyried eu bod yn byw mewn ardal wledig ac felly'n dymuno aros dan gyngor cymuned yn hytrach na chyngor tref. Roedd y ffiniau presennol yn seiliedig ar gwrs dŵr, a oedd mewn sawl achos yn rhesymegol ar gyfer gosod ffiniau. Fodd bynnag, roedd y newid i ffiniau a oedd nawr yn cael ei awgrymu o ganlyniad i ffiniau yn dilyn ffin ffordd yn hytrach na chwrs dŵr a oedd yn siomedig.
- **Cyngor Tref y Barri** - Roedd y cynigion a oedd yn berthnasol i Gyngor Tref y Barri yn ymddangos yn rhesymegol wrth symud ymlaen. Yr unig fân feirniadaeth yw y gallai Ward Cadog yn y Barri fod yn rhy fawr ac felly gellid awgrymu rhannu ward Cadog yn ddwy ward. Roedd democratiaeth yn iach iawn yn y Barri a chystadlwyd am bob sedd gan sawl plaid mewn etholiadau. Felly, y gobaith oedd y byddai'r cynigion a gyflwynwyd gan y

Comisiwn yn helpu i hyrwyddo democratiaeth mewn cymunedau llai ar draws Bro Morgannwg drwy annog a chynnal etholiadau, gan nad oedd cystadlu am lawer o seddi yn y Cynghorau Cymuned yn aml.

- **Cyngor Cymuned Gwenfô** - Roedd y Cyngor Cymuned wedi cynnal cyfarfod i drafod y cynigion ac roedd yn wrthwynebol iawn i'r cynigion a gyflwynwyd. Roedd Cymuned Gwenfô yn gymuned glos, ac nid oedd y cynigion yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl. Un o'r prif resymau dros wrthwynebu oedd mewn perthynas â'r caeau chwarae a'r rhandiroedd yn Nhwynrodyn, a oedd yn eiddo i Gyngor Cymuned Gwenfô ac a roddwyd i'r Cyngor beth amser yn ôl at ddefnydd pobl sy'n byw yng nghymuned Gwenfô. Roedd deiseb wedi ei threfnu gan y Cynghorydd Russell Godfrey ymysg trigolion Dyffryn, Llwyneliddon a Thwynrodyn ac ni fynegodd un trigolyn ddymuniad i symud allan o gymuned Gwenfô. Cyn etholiad diwethaf y Cyngor Tref a Chymuned, collodd cymuned Gwenfô ward Sain Nicolas gyda Thresimwn i ward Llancarfan ac felly nid oedd Cyngor Cymuned Gwenfô eisiau unrhyw newidiadau pellach. Roedd Sain Nicolas a Thresimwn yn ardaloedd datblygu, gyda gwaith datblygu eiddo preswyl yn parhau, ac felly'n ceisio cynyddu nifer y trigolion ond, ni ddylai hyn fod ar draul cymuned Gwenfô.
- **Cyngor Cymuned Pen-llin** - Roedd y Cyngor Cymuned yn falch iawn o weld bod y Comisiwn Ffiniau a gweithgor trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg wedi cefnogi cynigion y Cyngor Cymuned o ran ardal Pen-llin, yn enwedig o ran yr ardal a fyddai'n cael ei heffeithio gan ddatblygiad preswyl Fferm Darren. Roedd y Cyngor Cymuned yn pryderu am y gostyngiad yn nifer y cynghorwyr a oedd yn cael ei gynnig oherwydd, gan ei bod yn ardal gymharol wasgaredig, canfu'r Cyngor fod y nifer presennol o gynghorwyr yn gweithio'n dda iawn. Felly, byddai'r Cyngor yn gwneud argymhelliaid i'r Comisiwn i beidio â gostwng nifer y cynghorwyr gan ystyried y ffaith bod y polisi meintiau ar gyfer arweiniad yn unig.
- **Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn** – Nid oedd y Cyngor na'r aelod ward perthnasol yn dymuno i Dwynrodyn ymuno â Sain Nicolas felly, camwybodaeth yn y parth cyhoeddus oedd y pwynt hwnnw. O ran caeau chwarae a rhandiroedd Twynrodyn, gallai'r cyfleusterau hynny aros o fewn yr ardal ar gyfer Cyngor Cymuned Gwenfô, a chymeradwywyd hyn gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn.
- **Cyngor Cymuned y Wig** - Dangosodd y sylwadau a godwyd gan gynghorwyr ar lefel y Dref ddiffyg dealltwriaeth o'r ffordd yr oedd democratiaeth yn gweithio mewn cymunedau llai. Roedd awgrymu bod diffyg democrataidd o fewn Cynghorau Cymuned, pe na bai etholiad wedi digwydd, yn anghywir. Byddai'r Cyngor yn ysgrifennu i'r Comisiwn i wrthwynebu'r cynigion.
- **Y Cynghorydd Haines** - 1) Byddai lleihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r cymunedau llai yn arwain at y cynghorau yn colli'r hyn oedden nhw fel cymuned.
2) Gallai seilio cynigion ar wneud rhagdybiaethau ar yr hyn a fyddai'n cael ei gynnwys neu beidio yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor neu'r hyn a fyddai'n digwydd neu beidio gyda chymuned yn y dyfodol arwain at addewidion heb eu cyflawni ar gyfer yr ardal a dylid osgoi hyn. Felly, roedd

yn bwysig i Gyngor y Fro feddwl o ddifrif am yr hyn yr oedd yn ei argymhell i'r Comisiwn.

- **Y Cyngorydd Wilson** – 1) ar gyfer etholiadau 2022, roedd nifer o Gyngorau Cymuned na chynhalion nhw etholiadau ac felly cafodd unigolion eu cyfethol a oedd yn bryder am nad oedd digon o unigolion yn sefyll am nifer y seddi a oedd ar gael. I ryw raddau, ceisiodd adroddiad y Cabinet ac argymhellion dilynol Cyngor Bro Morgannwg fynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd dymuniad ar y cyd i ddemocratiaeth weithio'n dda yn ardal Bro Morgannwg yn ei chyfanrwydd ac nid yn y prif drefi yn unig.
2) Pan oedd cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd, nid oedd hyn yn golygu bod y cymunedau yn lleihau, yn hytrach roeddent yn dod yn gryfach a chynyddu eu gallu i wneud pethau oherwydd cronni cyllid ac adnoddau yn ogystal â bod yn fwy tebygol o gael eu clywed ar lefel cyngor sir.
3) Roedd adolygiadau cymunedol yn digwydd yn anaml ac felly roedd angen meddwl ymlaen llaw i ddiogelu cymunedau at y dyfodol o ran y ffordd y byddent yn datblygu dros y degawd dilynol nes i'r adolygiad nesaf gael ei gynnal.
- **Y Cyngorydd Dr. Johnson** – 1) roedd y sefyllfa wleidyddol yn amlwg yn wahanol yn rhai o'r ardaloedd mwy trefol i rai o ardaloedd mwy gwledig Bro Morgannwg.
2) Ar hyn o bryd roedd 26 o Gyngorau Tref a Chymuned ym Mro Morgannwg ac, o'r nifer hwnnw, dim ond chwech a gynhaliodd etholiadau yn 2022 hyd y gwyddai ef, felly roedd hyn yn cynrychioli diffyg democrataidd pan oedd pobl yn gosod trethi lleol heb gael eu hethol gan bobl leol.
- **Y Cyngorydd Hodges** - Roedd maint rhai o gyllidebau'r Gyngorau Cymuned yn fach iawn yn enwedig ar ôl rhoi cyfrif am gyflogau clerig. Roedd hyn yn golygu mai ychydig iawn o arian a oedd ar gael i wneud unrhyw beth ag ef ac mai sicrhau newid yn y gymuned gan ddefnyddio'r praesept a oedd ar gael i gyngor oedd bwysicaf.
2) Gallai cynyddu maint a phoblogaeth cymuned gynyddu'r siawns y byddai etholwyr yn cymryd rhan mewn etholiadau lleol yn ogystal â'r arian sydd ar gael iddi i sicrhau newid ystyrllon.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys adroddiad y Cabinet ar yr Adolygiad Cymunedol i sicrhau bod y Pwyllgor Cyswllt â Chymunedau yn cael cyfle i gyflwyno unrhyw sylwadau i'r Cabinet.

414 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG 2022-23 (REF) -

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 19 Gorffennaf 2023, er mwyn rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r bumed flwyddyn o gynnydd tuag at gyflawni'r Amcanion Llesiant a'r camau a bennwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro (BGC) yn ei Gynllun Llesiant 2018-2023.

Dyma oedd pedwar Amcan Llesiant y BGC yng Nghynllun Llesiant 2018-23: 1. Galluogi pobl i gyfranogi, i gymryd rhan yn eu cymunedau lleol ac i siapio gwasanaethau lleol 2. Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd 3. Rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd a 4. Diogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yna gyfres o ffrydiau gwaith â blaenoriaeth yr oedd partneriaid y BGC wedi cytuno arnynt ac yn ymgymryd â nhw o amgylch ardaloedd Caerdydd a Bro Morgannwg yn gysylltiedig â'r Fenter Bwyta'n Iach, cynlluniau a chynigion ar sut i fynd i'r afael â newid hinsawdd ar y cyd, a phrosiect braenaru yn edrych ar werth yn y Fro, sef sut i gydnabod a gwobrwyo gwaith gwirfoddoli mewn cymunedau a gwaith wedi'i arwain gan y gwasanaeth tân i wella ymgysylltiad. Roedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor yn rhoi dadansoddiad ar draws y pum ardal o'r hyn a wnaed a'r hyn a gyflawnwyd hyd yma, ac yn esbonio'r cyfeiriad i'r dyfodol a'r modd yr oedd hynny'n cyd-fynd â'r Cynllun Llesiant newydd a fabwysiadwyd ym mis Mai 2023.

Gwnaeth yr Adroddiad Blynyddol rai cyfeiriadau penodol at Gynghorau Tref a Chymuned, ac roedd y BGC wedi croesawu cynrychiolydd newydd enwebedig o'r Cynghorau Tref a Chymuned, y Cynghorydd S. Hodges. Mynegodd swyddogion ddiolch i'r Cynghorydd Hodges, a hefyd i'r cynrychiolydd sector blaenorol, M. Cuddy o Gyngor Tref Penarth.

Roedd gan rai o'r Cynghorau Tref a Chymuned ddyletswydd benodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ddangos sut yr oeddent yn helpu i ddatblygu a chyflawni Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond roedd pob Cyngor Cymuned yn cael ei annog i edrych ar y Cynllun Llesiant ac i ystyried sut y gellid bwrw ymlaen â'r Cynllun yn eu cymunedau unigol eu hunain, felly byddai Cyngor Bro Morgannwg yn croesawu eu cyfranogiad mewn cyfarfodydd cyswllt yn y dyfodol.

Ar ôl i'r Cyfarwyddwr gyflwyno'r adroddiad a'r sylwadau dilynol a godwyd gan gynrychiolwyr cyfredol a blaenorol Cynghorau Tref a Chymuned y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ychwanegodd y Cyfarwyddwr y pwyntiau canlynol:

- Dros y 18 mis diwethaf, ac wrth gynhyrchu'r Cynllun Llesiant newydd, bu cryn ymdrech i ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gydol y broses o gynhyrchu'r Cynllun. Roedd hon wedi bod yn broses ddefnyddiol iawn ac wedi rhoi'r cyfle i brofi'r ystyriaethau a oedd wrth wraidd y Cynllun a'i ddatblygiad. Roedd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cynnig rhai safbwyntiau a'i phersbectif o rannau eraill yng Nghymru, a Llywodraeth Cymru wedi gwneud hynny hefyd, felly roedd rhwydwaith o gefnogaeth BGC ar draws swyddfeydd cydgysylltiedig ledled y wlad, a olygai fod modd profi syniadau wrth eu cynhyrchu.
- Roedd nifer o gyfranogwyr gwadd yn ogystal â chyfranogwyr statudol yn eistedd ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac roedd nifer o'r cyfranogwyr statudol yn mynychu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill neu'n bartneriaid iddynt, ac roedd hynny'n ddefnyddiol iawn. O ran

No.

cydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, bu modd edrych ar y modd yr oedd gwaith y Bwrdd hwnnw'n cyd-blethu â gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac mewn perthynas â iechyd, gofal cymdeithasol, tai ac addysg. Roedd BGC y Fro yn creu cysylltiadau cryf iawn â'i gydweithwyr yng Nghaerdydd a Chyfoeth Naturiol Cymru.

- Roedd Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro wedi cael derbyniad da oherwydd ei ffocws manwl ar y meysydd allweddol. Cysylltiadau rhwng partneriaid a'r ethos o wirio'r prosesau meddwl oedd yr ysgogiad wrth wraidd cyfarfodydd cyswllt Cyngor Tref a Chymuned, a byddai'n ddi-ddorol iawn archwilio pa mor gyfarwyddol yr hoffai Cyngorau Tref a Chymuned fod yn un o'r sesiynau yn y dyfodol.
- Roedd cydweithwyr o Dîm Adfywio'r Cyngor yn arwain cynlluniau creu lleoedd, ac roedd cysylltiad â Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhan annatod o'r gwaith parhaus hwnnw. Byddai'r Cyngor felly'n ceisio creu cysylltiadau cryf iawn o ran hynny.
- Mewn perthynas â SPSF4, sef rôl gyfunol Cyngorau Cymuned yn eu buddiannau cyffredin, o ran bwrw ymlaen â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, cynhaliodd y Cyngor gyfres weithdai y gwahoddwyd Cyngorau Tref a Chymuned iddynt, ac yn wir daeth llawer i'r cyfarfodydd hynny, a byddai rhagor o gyfleoedd ar gael yn y dyfodol.

I gloi, diolchodd y Cynrychiolydd Cyngorau Tref a Chymuned presennol ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i swyddogion y Cyngor am y gwaith caled aruthrol a wnaed yn y Fro a chanmolodd y swyddogion am gynyddu'r cyswllt a ddechreuwyd â'r Cyngorau Cymuned, gan fod llawer mwy o gyswllt bellach nag a gafwyd ers blynyddoedd lawer. Roedd pob Cyngor Tref a Chymuned bellach wedi cael cyfle i fynegi eu teimladau a'u sylwadau drwy gyfarfodydd cyswllt y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

I gloi, adleisiodd y Cadeirydd y diolchiadau i swyddogion y Cyngor.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, felly penderfynodd y Pwyllgor

CYTUNWYD - Nodi cyfeiriad y Pwyllgor ac Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg ar gyfer 2022-23 a atodwyd.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Pwyllgor ac Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg ar gyfer 2022-23 a atodwyd i roi trosolwg o'r bumed flwyddyn o gynnydd wrth gyflawni'r Amcanion Lles a'r camau gweithredu a bennwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y Fro yn ei Gynllun Lles ar gyfer 2018-2023.